# Asiantau Teithio

## Prosiect Dysgu Dychmygus i Blant CA2 Isaf



| YMDRINIAETH TESTUN: **Asiantau Teithio** | |
|---|---|
| Testun Ffocws PDD | Daearyddiaeth |
| Genre Ysgrifennu PDD | Testunau perswadiol, Taflenni a Hysbysebu |
| Celf a Dylunio | Tecstilau |
| Daearyddiaeth | Astudiaeth fyd-eang |
| TGCh | Ymchwil a Rhannu Gwybodaeth |
| Mathemateg | Problemau Rhifau |
| ABCh | Bywydau Pobl Eraill |

## Trosolwg o'r PDD

**Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar sgiliau daearyddiaeth ac y mae'n dysgu'r plant am dwristiaeth a'r effaith y gall hyn ei gael ar bobl ac ar lefydd. Wrth wraidd y prosiect hwn mae plant yn dysgu sut i ysgrifennu hysbysebion a datblygu sgiliau ychwanegol wrth ddefnyddio iaith berswadiol a disgrifiadol.**

**Yn y rhan Arloesi mae plant yn cymhwyso eu sgiliau a'u dealltwriaeth trwy gyllido a pharatoi taith dramor ar gyfer teulu o bedwar.**

**Yn y prosiect hwn bydd plant yn dysgu:**

- Defnyddio sgiliau daearyddol a geirfa wrth ddod o hyd i wybodaeth ar gyrchfannau;
- Am yr hinsawdd, y nodweddion daearyddol a lleoliad nifer o gyrchfannau gwyliau;
- Sut i ddefnyddio sgiliau mathemateg mewn meysydd eraill o'u gwaith;
- Sut fath o fywyd sydd gan bobl sy'n byw yn y cyrchfannau a astudiwyd, a sut y gall hyn gyferbynnu â phrofiadau twristiaid;
- Lleoli mannau ar fap, atlas a glôb gyda chywirdeb, a chyfrifo pellteroedd rhwng cyrchfannau a'u cartrefi;
- Cyflwyno gwybodaeth yn weledol ac yn ysgrifenedig gan ddefnyddio ystod o gyfryngau;
- Sut i gynllunio ymweliadau, gweithio allan y costau a defnyddio sgiliau menter mewn amgylchedd busnes.

Hawlfraint © 2010 Addysg Cornerstones Cyfyngedig

## Ymdriniaeth Sgiliau - **Asiantau Teithio**

| Meddwl ar draws y Cwricwlwm | Ymgysylltu | Datblygu | Arloesi | Mynegi |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn cwestiynau | X | X | X | X |
| Ysgogi sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol | X | X | X | X |
| Cywain gwybodaeth | X | X | X | X |
| Pennu'r broses/dull gweithio a'r strategaeth | X | X | X | X |
| Pennu meini prawf llwyddiant | X | X | X | X |
| Creu a datblygu syniadau | X | X | X | X |
| Gweld gwerth mewn camgymeriadau a deilliannau annisgwyl | X | X | X | X |
| Meddwl entrepreneuraidd | | X | X | X |
| Meddwl am achos ac effaith a dod i gasgliadau | | X | X | X |
| Meddwl yn rhesymegol a chwilio am batrymau | | X | X | X |
| Pwyso a mesur tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau | X | X | X | X |
| Ffurfio barn a gwneud penderfyniadau | X | X | X | X |
| Monitro cynnydd | | X | X | X |
| Adolygu deilliannau a meini prawf llwyddiant | | | X | X |
| Adolygu'r broses/dull gweithio | | X | X | X |
| Gwerthuso eu dysgu a'u meddwl eu hunain | | | X | X |
| Cysylltiadau a meddwl ochrol | | | X | X |
| **Cyfathrebu ar draws y cwricwlwm** | | | | |
| Datblygu gwybodaeth a syniadau | | X | X | X |
| Cyflwyno gwybodaeth a syniadau | | X | X | X |
| Defnyddio strategaethau darllen i ddod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i defnyddio | X | X | X | X |
| Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd | X | X | X | X |
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | X | X | X | X |
| Ysgrifennu yn gywir | | X | X | X |
| Cyfleu syniadau ac emosiynau | | X | X | X |
| Cyfleu gwybodaeth | | X | X | X |
| **TGCh ar draws y cwricwlwm** | | | | |
| Dod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu | X | X | X | X |
| Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | X | X | X | X |
| **Rhif ar draws y cwricwlwm** | | | | |
| Defnyddio rhifau | | X | X | |
| Mesur | | X | X | |
| Casglu gwybodaeth | | X | X | |
| Defnyddio'r system rifau | | X | X | |
| Defnyddio amrywiaeth o ddulliau | | X | X | |
| Trafod ac esbonio gwaith | | X | X | X |
| Cymharu data | | X | X | |
| Cofnodi a dehongli data a chyflwyno canfyddiadau | | X | X | X |

**Ebost: info@cornerstoneseducation.co.uk**
**www. cornerstoneseducation.co.uk**

Cornerstones Addysg

Cynllunio a chynhyrchu'r ffolder: GLM Design & Print
Ffôn: 0114 2757444 Ebost: glmdesign@btconnect.com

## SYNIADAU AR GYFER Y PROSIECT

# Prosiect Dysgu Dychmygus: **Asiantau Teithio**

Cornerstones Cwricwlwm

The Learning Partnership Wales

## 1. YMGYSYLLTU

**Mae plant yn ymgysylltu â phrofiadau dysgu pwrpasol a chyd-destunol; yn y dosbarth a'r tu allan iddo, gan wneud y defnydd gorau o bartneriaid, arbenigwyr a'r gymuned i ddarparu'r symbyliad i ddysgu.**

- Ymweld ag asiant teithio i gasglu ystod o lyfrynnau. Siarad ag asiantau teithio am eu gwaith a ble mae pobl yn dewis mynd ar eu gwyliau. Gofyn i'r plant i baratoi cwestiynau i ddod o hyd i gymaint o wybodaeth â phosibl am y gwahanol lefydd y mae pobl yn teithio iddynt ar eu gwyliau. – Beth yw'r rhai mwyaf poblogaidd? Y mwyaf anarferol? Gwneud nodiadau er mwyn eu helpu i gofio gwybodaeth allweddol.
- Ymweld â lleoliad gerllaw sydd â pheth elfen o dwristiaeth- arfordirol, dinesig, gwledig. Nodi sut mae'r lle'n darparu ar gyfer ymwelwyr a thwristiaid.
- Chwilio pa nodweddion naturiol a rhai o ddyfais dyn sy'n denu twristiaid.
- Wrth ddychwelyd i'r dosbarth ysgrifennu adroddiad o'r hyn a welwyd a sut mae'r lleoliad yn cefnogi twristiaeth. Ystyried sut mae twristiaeth wedi effeithio ar dwf neu ddirywiad y lleoliad.
- Gwahodd rhywun sydd wedi teithio i siarad â'r plant am y llefydd lle buont ac am eu profiadau. Gwylio sleidiau a delweddau am y gwahanol lefydd y maent wedi bod iddynt. Chwilio ar fapiau a glôb am y gwahanol lefydd yr ymwelwyd â hwy a'r llwybrau y teithiwyd arnynt.
- Siarad am lefydd y mae'r plant wedi ymweld â hwy a dangos lluniau ohonynt. Chwilio am y llefydd hyn ar glôb a map o'r DU a thu hwnt. Arddangos lluniau ar fap o'r byd. Llunio mapiau meddwl syml am y llefydd y maent wedi ymweld â hwy i gofnodi syniadau am y tywydd, twristiaeth, pobl, hinsawdd a diwylliant.
- Archwilio ystod o ffotograffau erial a delweddau lloeren Rhyngrwyd o'r gwahanol wledydd y soniwyd amdanynt – Pa nodweddion y gellir eu gweld? Chwilio am fynyddoedd, afonydd, llynnoedd, morliniau, aneddiadau a nodweddion eraill daearyddol. Gwneud nodiadau ar yr hyn a welwyd.
- Darllen ystod o ddeunydd hysbysebu gan gynnwys taflenni sy'n hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru. Defnyddio'r rhain a gwefannau teithio i weld y defnydd o iaith, cyflwyniad a geirfa. Defnyddio amser cylch i drafod sut mae'r wybodaeth wedi cael ei chyflwyno. Dechrau casglu geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir i hysbysebu gwyliau a darganfod y prif 'bwyntiau gwerthu' a ddefnyddir.
- Gwneud lluniadau o arsylw personol pan ymwelwyd â gwahanol leoliadau.
- Dechrau edrych ar esiamplau o gelf a chrefft o rai o'r gwahanol wledydd a drafodwyd. Defnyddio gwrthrychau fel mannau cychwyn ar gyfer lluniadu arsylwol.
- Creu asiant teithio o fewn y dosbarth. Darparu ystod o lyfrynnau gwyliau, mapiau, globau, adnoddau teithio, arweinlyfrau ac esiamplau o wrthrychau o wahanol wledydd. Darparu ystod o lyfrau heb fod yn ffuglen ar gyfer ymchwil a llyfrau stori o wahanol wledydd.

## 2. DATBLYGU

**Mae plant yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau testun sydd eu hangen i ddatblygu eu dysgu trwy wahaniaethu ansawdd a thasgau a phrofiadau dysgu gyda ffocws arbennig.**

- Dewis dau leoliad twristaidd byd-eang ac un lleoliad Cymreig. Gallai lleoliadau byd gynnwys yr India, Affrica, Groeg, Ffrainc, lleoliadau a ddefnyddir ar gyfer chwaraeon gaeaf, gwyliau traeth haf a/neu leoliad gwledig. Bydd hyn yn cael ei ddylanwadu gan ddiddordebau'r plant a meysydd cychwynnol o ymchwil. Ceisio dewis lleoliadau cyferbyniol.
- Ystyried sut fyddai hi i fyw yn y mannau hyn a sut fyddai profiad pobl leol ohonynt o'i gymharu â thwristiaid. Cymharu'r cyrchfannau twristaidd â mannau eraill yn yr un wlad. Ysgrifennu am y gwahaniaethau a sut maent wedi newid.
- Defnyddio atlas, glôb, map a chynlluniau i leoli. Gwneud mapiau a nodi ardaloedd a nodweddion allweddol. Cyfrifo pellteroedd a dilyn cyfarwyddiadau ar gyfer teithio.
- Darparu carwsél ymchwil i archwilio ystod o wahanol leoliadau. Defnyddio ymchwil Rhyngrwyd, ystod o adnoddau gwybodaeth nad yw'n ffuglen a deunydd hysbysebu. Archwilio mewn mwy o ddyfnder nodweddion allweddol sy'n effeithio ar dwristiaeth megis dinasoedd, mannau/nodweddion o ddiddordeb, tywydd a nodweddion diwylliant neu dirwedd sy'n denu twristiaid. Cymharu a chyferbynnu lleoliadau ac ysgrifennu adroddiadau syml ar sut fath o le yw pob un, gan gynnwys digon o fanylion ar gyfer y darllenydd.
- Casglu a dadansoddi data perthynol i'r tywydd, nifer yr ymwelwyr, poblogaeth, pellter o'r DU a lle maent yn byw, oriau teithio, a data allweddol arall y credant eu bod yn berthnasol. Dylai plant gofnodi hyn yn defnyddio TGCh, taenlenni syml a thablau.
- Defnyddio amser cylch a phartneriaid siarad i ddisgrifio ac ystyried sut mae llefydd wedi newid o ganlyniad i dwristiaeth – er enghraifft twf trefi, cyrchfannau a symudiad pobl i gael gwaith.
- Dysgu technegau ysgrifennu hysbysebion. Defnyddio ystod o wahanol ddeunydd darllen megis papurau newydd, llyfrynnau, taflenni a hysbysebion i gefnogi datblygiad y defnydd o iaith, technegau cynllun a chyflwyniad. Cymharu gwahanol fathau o hysbysebion sy'n cynnwys ffeithiau a ffigurau a rhai sy'n procio ymateb emosiynol. Dechrau datblygu iaith o gwmpas y mannau a astudiwyd at bwrpas hysbysebu.
- Dewis lleoliad o ddiddordeb a gwneud hysbysebion syml a thaflenni am y cyrchfan. Defnyddio TGCh i greu a chyflwyno. Defnyddio nodweddion allweddol o ran cynllun ac iaith a ddefnyddir mewn deunydd perswadiol a hysbysebu. Cynnwys delweddau a lawr lwythwyd o'r Rhyngrwyd i ddarlunio. Gellir defnyddio mapiau a ffeithiau/data o ymchwil flaenorol hefyd ar gyfer y cyrchfan.
- Datrys problemau mathemategol sy'n datblygu dealltwriaeth am bellter ac amser. Gellid hefyd gynnwys elfennau o arian ac arian cyfred.
- Defnyddio pecynnau celf TGCh i ddatblygu cynlluniau yn seiliedig ar fapiau'r byd. Defnyddio sgiliau tecstil i ail-greu'r cynlluniau hyn gan ddefnyddio ystod o ddeunyddiau. Cyd-weithio i greu baneri wedi'u gwnïo yn arddangos baneri'r byd.

## 3. ARLOESI

**Rhoddir cyfle i blant i arloesi trwy gymhwyso eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth trwy brocio heriol, gan ddefnyddio eu syniadau eu hunain a rhai a drafodwyd.**

### Enghraifft o brocio

Fel rhan o 'Getaways', yr asiant teithio lleol, gofynnwyd i chi gynllunio taith unwaith mewn bywyd ar gyfer teulu o bedwar. Fel eu hasiant teithio rhaid i chi gynllunio gwyliau a darganfod y prif 'bwyntiau gwerthu' a ddefnyddiwyd. Gwyliau yn trefnu eu hanghenion teithio, hamdden a llety. Bydd y daith yn cael ei chynllunio'n fanwl ac yn cyfarfod â'u cyllideb diffiniedig (cyllidebau a lleoliadau i'w penderfynu fesul grŵp).

### Er mwyn bod yn llwyddiannus yn y dasg hon, rhaid i chi:

- Ymchwilio'r cyrchfan dewisedig yn defnyddio TGCh a deunydd ffynhonnell arall;
- Dysgu am hinsawdd, lleoliad a nodweddion daearyddol eraill y cyrchfan dewisedig;
- Dysgu pa atyniadau twristaidd sydd ar gael i'r teulu ymweld â hwy;
- Cynllunio'r dull gorau o deithio a hysbysu'r cleient am y pellter a'r amserau teithio;
- Gweithio allan beth yw cost y gwyliau i'r teulu;
- Byddwch yn codi ar y teulu gan wneud yn siŵr eich bod wedi caniatáu ar gyfer maint yr elw;
- Rhoi peth arweiniad i'r teulu ar yr hyn y dylent fynd gyda hwy ar y gwyliau
- Cyflwyno adroddiad llawn manylion i'r teulu yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl ar y gwyliau
- Defnyddio TGCh, gwaith celf a delweddau i greu eich adroddiad yn sicrhau fod y teulu'n bwcio eu gwyliau gyda Getaways.

## 4. MYNEGI

**Mae plant yn mynegi a gwerthuso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, fel deilliannau'r dysgu mewn dulliau cofiadwy gwahanol yn cynnwys defnyddio amrywiaeth o gyfryngau a thechnoleg.**

- Gwahodd rhieni i mewn i'r ysgol i weithio gyda pharau a dysgu am syniadau a chynlluniau teithio'r plant. Mireinio a golygu eu gwaith i'w wella wrth drafod gyda rhieni.
- Cynnal parti teithio. Dod â siwtcês neu fag i'r ysgol i ddangos beth fyddai'n briodol ar gyfer y daith. Trafod mewn cylch amser a gyda phartneriaid siarad.
- Darllen eu cynlluniau yn uchel i'r dosbarth. Annog y plant i holi ac ateb cwestiynau am eu cynlluniau.
- Gwahodd asiant teithio i mewn i'r ysgol i glywed cynlluniau'r plant neu e-bostio eu gofynion at asiant teithio.
- Trosglwyddo eu syniadau a'u cynlluniau i gyflwyniad Powerpoint. Defnyddio sgiliau TGCh i greu'r rhain. Cyflwyno a rhannu gyda'r dosbarth.
- Arddangos a gwerthuso eu gwaith celf. Mireinio ac ychwanegu addurniad i'w baneri a'u murluniau.
- Defnyddio amser cylch i ystyried oblygiadau eu teithio eu hunain – Sut fyddent yn teimlo o fod oddi cartref? I ble maent eisiau teithio pan fyddant yn hŷn? Pam fod pobl yn teithio? Sut mae'n effeithio ar y bobl yn y gwledydd hyn? Ehangu i drafod materion megis llygredd a niwed posibl i'r amgylchedd lleol a byd-eang.
- Gwneud posteri i berswadio pobl i deithio'n gynaliadwy. Defnyddio'r hyn a elwir yn iaith berswadiol. Defnyddio sgiliau TGCh a phecynnau celf i greu. Arddangos yn y dosbarth.
- Adolygu 'r hyn maent wedi'i ddysgu yn ystod y prosiect, gwneud nodiadau a mapiau meddwl crynodeb mewn logiau dysgu neu lyfrau prosiect.
- Darllen ac actio storïau o fannau o amgylch y byd.

Copyright © 2010 Cornerstones Education Limited